Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Dyddiad cau: 30 Medi 2022

Neges gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dyma gyfle unigryw i chwarae rhan allweddol fel arweinydd yn y gwaith o sefydlu corff hyd braich newydd Llywodraeth Cymru. Rwy'n credu y bydd yn tynnu ynghyd ystod o swyddogaethau a ffrydiau cyllid gwahanol ac yn ein galluogi ni i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer un sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol (AHO) cydweithredol, gan ganolbwyntio ar y dysgwr, ac mewn ffordd sy'n ystyried anghenion busnes a chymunedol Cymru.

Yng Nghymru, rydym yn ystyried mai addysg yw un o'n dulliau mwyaf pwerus o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae sicrhau safonau uchel i bob dysgwr a'r cyfle i gyflawni uchelgais yn genhadaeth i ni fel cenedl, gan fynd i'r afael, ar yr un pryd, ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth, mewn sefydliad cymhleth ar lefel bwrdd neu gyfatebol, sydd ag arbenigedd mewn cyllid a chyfrifyddu, archwilio neu yn y gyfraith.

Bydd y rôl hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus a bod trefniadau llywodraethiant effeithiol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu, gyda'r bwriad o ofalu bod egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian yn cael eu dilyn.

Bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn uchelgeisiol ac yn arloesol, bydd angen iddo hyrwyddo cynwysoldeb a bod yn frwd o blaid amrywiaeth. Bydd yn golygu cydweithio â phartneriaid gartref ac yn rhyngwladol, er mwyn hyrwyddo gwaith y Comisiwn ar draws meysydd o bob math, gan gynnwys cenhadaeth ddinesig.

Cynnwys

	Tudalen
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	**4**
Rôl Cadeirydd y Comisiwn	**6**
Rôl Bwrdd y Comisiwn	**8**
Gwneud cais	**11**
Y broses ddethol	**14**

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Mae gan y sefydliad newydd hwn gyfle i fod yn esiampl ryngwladol ac mae ganddo'r grym i gefnogi dysgwyr i symud yn llyfn o addysg orfodol i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Am y tro cyntaf, byddwn yn ymgorffori dibenion strategol yn y gyfraith ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil. Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi ein prifysgolion a'n colegau, sydd ymhlith goreuon y byd, gan feithrin y cysylltiadau cryfaf â chyflogwyr, partneriaid rhyngwladol, a chymunedau gartref.

Dechreuodd ein cynlluniau uchelgeisiol ym mis Mawrth 2016, pan gyhoeddwyd adroddiad yr Athro Ellen Hazelkorn: Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dau brif argymhelliad: y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol; ac y dylai sefydlu corff hyd braich newydd i fod yn gyfrifol am oruchwylio ac arwain y sector, ac am ei gyfeiriad strategol.

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddwyd Gweledigaeth Strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac ar 28 Mehefin 2022 pasiwyd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru, fel yi pasiwyd gan y Senedd. Rhagwelir y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol ym Medi 2022.

Fel y stiward cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gyllid y sector, am y gwaith o'i oruchwylio a'i reoleiddio ac am roi'r lle canolog i ddysgwyr yn ei holl weithgarwch. Bydd y Comisiwn yn mynd ati mewn ffordd unigryw i gydlynu'r gwaith ledled y system, gan gefnogi dysgwyr drwy gydol eu bywydau â'r wybodaeth a'r sgiliau i lwyddo, a sicrhau darparwyr annibynnol ac amrywiol cryf a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at les a ffyniant cenedlaethol. Am y tro cyntaf yng Nghymru ac yn y byd, rydym yn tynnu ynghyd addysg uwch ac addysg bellach, dosbarthiadau chwech ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, prentisiaethau, dysgu yn y gymuned i oedolion, ymchwil ac arloesi.

Amcangyfrifir y bydd gan y Comisiwn gyllideb flynyddol o tua £800m, un o'r cyllidebau uchaf i'w dyrannu i gorff hyd braich yng Nghymru. Bydd y Comisiwn yn gorff hyd braich i Lywodraeth Cymru, a fydd yn ei le erbyn Ebrill 2024 (yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol), gan gyflogi tua 160 o staff. Unwaith y bydd y Comisiwn wedi'i sefydlu, bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn arwain y corff yn y gwaith o gyflawni ei amcanion strategol a'i swyddogaethau cyfreithiol, er mwyn creu sector addysg drydyddol yng Nghymru sy'n ymgysylltu'n fwy, sy'n sicrhau cydraddoldeb ac sy'n rhagorol, gan flaenoriaethu buddiannau dysgwyr a chyfrannu at ffyniant cenedlaethol.
Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am y sector addysg drydyddol cyfan yng Nghymru, ac yn gyfrifol yn gyfreithiol am gyllid, gwaith goruchwylio a rheoleiddio, ac ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru, ynghyd â chofrestru darparwyr. Mae rhai o'r trefniadau hanesyddol sy'n ymwneud ag addysg drydyddol yng Nghymru wedi bod ar waith ers 30 mlynedd, cyn i niferoedd myfyrwyr gynyddu cymaint, cyn datganoli, a chyn newidiadau mawr mewn technoleg.

Mae'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn nodi 11 o ddyletswyddau strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau yn unol â nhw. Bwriad y dyletswyddau

strategol hyn yw llywio cyfeiriad strategol a ffocws y Comisiwn, a'i gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau.

Bydd Gweinidogion Cymru yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil a fydd, ynghyd â'r dyletswyddau strategol uchod, yn pennu'r fframwaith cynllunio strategol ar gyfer y Comisiwn. Mewn ymateb, bydd y Comisiwn yn datblygu cynllun strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, yn ymgynghori arno ac yn ei gyhoeddi, gan nodi sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn.

Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo gwelliant parhaus yn ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil, gan greu dull gweithredu cyson o ansawdd ar sail egwyddorion cyffredin a chydweithio, ac mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Drwy ei bwerau cyllido, bydd yn ehangu'r dewis i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Comisiwn yn monitro, yn cofrestru ac yn rheoleiddio darparwyr, a bydd yn pennu'r safonau sydd i'w disgwyl o fewn y sector - gan gynnwys o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd yn gweithredu model cofrestru newydd sy'n darparu mecanwaith hyblyg ar gyfer goruchwylio darparwyr addysg drydyddol mewn ffordd sy'n sicrhau atebolrwydd. Bydd yna gategorïau cofrestru, a phob un yn gysylltiedig ag amodau megis ansawdd addysg, llywodraethiant a sut y rheolir sefydliadau, cynaliadwyedd ariannol, hyrwyddo cyfle a mynediad cyfartal. Bydd y Comisiwn yn ariannu darparwyr cofrestredig ar gyfer gweithgareddau addysg uwch ac ymchwil ac

arloesi, a'r rheini sy'n cydweithio â darparwyr cofrestredig. Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch presennol Cymru yn cael ei ddiddymu, felly.
Bydd y Comisiwn yn rhoi'r lle canolog i ddysgwyr wrth ddiwygio trefniadau, gan gynnwys mesurau i'w diogelu pan fydd angen, a bydd yn paratoi, ymgynghori ar a chyhoeddi cod newydd ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr ar draws addysg drydyddol. Bydd y Comisiwn hefyd yn sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg 16-19, ac am y tro cyntaf yng Nghymru bydd yn creu dyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg neu hyfforddiant penodedig ar gyfer oedolion cymwys, gan arddangos ymrwymiad i ehangu dysgu gydol oes.

Mae'r Bil hefyd yn creu pŵer annibynnol newydd i'r Comisiwn ariannu prentisiaethau yn yr un ffordd ag addysg drydyddol arall, er mwyn galluogi system yng Nghymru sy'n ymateb yn well i anghenion dysgwyr, yr economi a chyflogwyr. Bydd yn ariannu'r gwaith o baratoi fframweithiau prentisiaeth Cymreig cymeradwy a'u darparu, gan eu diwygio i fod yn fwy hyblyg ac addas i'w pwrpas.
Bydd y Comisiwn yn casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata'r sector addysg drydyddol, bydd yn goruchwylio gwaith a pherfformiad y sector, yn pennu a monitro blaenoriaethau strategol a gweithredol, ac yn dosbarthu arian yn unol â chyfrifoldebau statudol.

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am oruchwylio'r sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol, ac am ei gyfeiriad strategol. Bydd yn gyfrifol am swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan CCAUC yn ogystal â swyddogaethau eraill ar draws y sector addysg drydyddol ac ymchwil, gan gynnwys rhai a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Y Comisiwn fydd rheoleiddiwr sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, a phrif gyllidwr darpariaeth addysg uwch ac addysg bellach.
Bydd ganddo gyfrifoldeb am y rhaglen brentisiaethau a dysgu oedolion, ynghyd â darpariaeth AHO mewn ysgolion drwy awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn gyfrifol am ymchwil ac arloesi lefel uwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, yn y sector AHO.

Bydd yn ei gwneud yn bosibl cynllunio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol mewn ffordd gryfach a mwy diogel, bydd yn parhau i gryfhau'r ecosystem ymchwil a'r cysylltiadau rhwng ymchwil a phrofiad addysgol, ac yn darparu system AHO sydd mewn sefyllfa well i ymateb i facro-newidiadau; i gynllunio llwybrau ar gyfer dysgwyr; ac i dynnu'r sector ynghyd mewn ffordd sy'n darparu go iawn ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau.

Mae'r penodiad hwn yn cael ei gynnig yn amodol ar gael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), a ddisgwylir erbyn 12 Medi 2022.

Penodi Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Rôl a Chyfrifoldebau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cadeirio Bwrdd y Comisiwn, gan ddatblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer ei weithredu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
Bydd Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn yn cyfrannu at y trefniadau pontio sydd eu hangen er mwyn sefydlu'r corff newydd erbyn Ebrill 2024. Bydd hyn yn cynnwys gweithio

gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i sicrhau bod systemau a phrosesau priodol yn eu lle i'w gwneud yn bosibl i staff drosglwyddo'n ddidrafferth.

Byddant yn atebol i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, ac yn gyfrifol am lywio penderfyniadau a'r hyn a gyflawnir mewn perthynas â sefydlu'r Comisiwn. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyngor awdurdodol ac amserol yn cael ei roi i Weinidogion Llywodraeth Cymru drwy swyddogion, a bydd yn rhoi adborth i'r sectorau.

Bydd deiliad y swydd:

- Yn gweithio ar y cynllun gweithredu gyda'r Prif Swyddog Gweithredol ac Uwch Swyddog Cyfrifol Llywodraeth Cymru ar Fwrdd y Rhaglen i sicrhau bod y Comisiwn yn weithredol mewn pryd ac yn addas i'w ddiben erbyn ei ddiwrnod gweithredu cyntaf
- Yn sicrhau bod gan holl aelodau Bwrdd y Comisiwn rolau a chyfrifoldebau clir o ran sefydlu a datblygu'r Comisiwn
- Yn arwain bwrdd y Comisiwn o ran pennu cyfeiriad strategol y Comisiwn, ac asesu a gwerthuso'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth fusnes, cynlluniau ac amcanion perfformiad y sefydliad
- Yn cadeirio a hwyluso cyfarfodydd Bwrdd y Comisiwn, penderfynu ar yr agenda a chymeradwyo'r cofnodion
- Yn llywio'r gwaith o reoli perfformiad y Prif Swyddog Gweithredol ac yn gyfrifol am aelodau Bwrdd y Comisiwn
- Yn asesu gweledigaeth, cenhadaeth a nodau'r Comisiwn
- Yn meithrin perthynas gydag arweinwyr y sector
- Yn darparu cynrychiolaeth ar gyfer prosiectau ar lefel uwch, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian; sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu i gyflawni'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol a roddir ar y corff drwy Statud
- Yn helpu i benodi'r Prif Swyddog Gweithredol.

Manyleb y Person – Meini Prawf Hanfodol

I gael eich ystyried, mae'n rhaid ichi ddangos bod gennych y nodweddion a'r sgiliau i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad hwn:

- Record rhagorol o arweinyddiaeth, goruchwylio trawsnewid sefydliadol, a datblygu ar lefel Bwrdd neu gyfatebol mewn sefydliad cymhleth, a'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth gydlynol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth aeddfed o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun polisi addysg a hyfforddiant trydyddol Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, a dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil creu'r Comisiwn
- Sgiliau rhesymu dadansoddol a chrebwyll o'r radd flaenaf, yn seiliedig ar allu arbenigol i brosesu a dehongli gwybodaeth gymhleth

Dealltwriaeth glir o gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ymrwymiad iddynt, a pharodrwydd i herio arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl
- Record gwych o ysbrydoli ac ysgogi staff a rhanddeiliaid sy'n dangos eich bod yn gweithio mewn ffordd gynhwysol a chydweithredol, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr staff
- Record o reoli cydberthnasau cymhleth a heriol yn llwyddiannus, gan gynnig cymorth priodol yn ôl yr angen a rheoli perfformiad yn effeithiol
- Y gallu i ddeall ymrwymiadau rôl gyhoeddus, fel y'u diffinnir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan
- Y gallu i herio meddylfryd a phrofi barn, gyda pharodrwydd i gael eich herio, ac annog trafodaeth agored er mwyn dod i benderfyniadau gwell.

Dymunol

Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes gennych sgiliau o'r fath, dylech fod yn barod i wneud ymrwymiad i ddysgu ar ôl cael eich penodi. Darperir hyfforddiant, gan gynnwys cefnogaeth a hyfforddiant unigol.

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd y Comisiwn

Yn ystod y gwaith o sefydlu'r Comisiwn

- Gweithio ar y cynllun gweithredu gyda'r Prif Swyddog Gweithredol ac Uwch Swyddog Cyfrifol Llywodraeth Cymru ar Fwrdd y Rhaglen i sicrhau bod y Comisiwn yn weithredol mewn pryd ac yn addas i'w ddiben erbyn ei ddiwrnod gweithredu cyntaf
- Monitro risgiau, problemau, ac elfennau rhyngddibynnol ar lefel y rhaglen
- Rhoi adborth i dîm y rhaglen ar y cynigion a'r cynnydd
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y prosiectau dan sylw yn cael eu datblygu ar y cyd, gan sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl o ran cydadeiladu a dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau.
- Ystyried buddiannau rhanddeiliaid allanol a staff y Comisiwn i'r dyfodol
- Nodi cyfleoedd a manteision posibl.

Unwaith bydd y Comisiwn wedi'i sefydlu

- Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol i gyflawni cylch gwaith y Bwrdd
- Arwain gwaith unrhyw is-grŵp (yn ôl y gofyn) i gefnogi cynllun gwaith y Bwrdd a chyflawni targedau gweithredu
  Cydweithio â rhanddeiliaid wrth ddatblygu blaenoriaethau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan sicrhau arferion gorau, gwerth am arian ac y cydymffurfir â blaenoriaethau eraill y llywodraeth.
- Hyrwyddo addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan dynnu sylw at y cyfleoedd a'r manteision
- Sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni nodau a gweledigaeth strategol y Comisiwn yn effeithiol
- Cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno

- Hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus; cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb, a gwerth am arian; sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu i gyflawni'r cyfrifoldebau, y swyddogaethau a'r dyletswyddau cyfreithiol a roddir ar y corff drwy Statud.

Sgiliau Gofynnol ar gyfer Bwrdd y Comisiwn

Wrth benodi'r Cadeirydd ac aelodau cyffredin y Bwrdd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan Atodlen 1 o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), roi sylw i allu neu arbenigedd aelodau'r Comisiwn (rhyngddynt) yn y meysydd canlynol:

- Arbenigedd ymarferwyr neu o faes addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Profiad o hyrwyddo anghenion dysgwyr mewn addysg drydyddol
- Cefndir gweinyddol/ymchwil
- Arbenigedd ariannol – neu gymhwyster cyfrifyddu
- Archwilio
- Cefndir diwydiannol neu fasnachol/busnes
- Cefndir cyfreithiol
- Arbenigedd cydraddoldeb/amrywiaeth (fel arfer mae arbenigedd yn y maes hwn ar bob bwrdd)
- Arbenigedd ar faterion cyfrwng Cymraeg

Y Gymraeg

Bydd disgwyl i bob ymgeisydd feithrin diwylliant cadarnhaol o ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg, yn ogystal â chydnabod y cyfraniad pwysig y bydd angen i'r Comisiwn ei wneud tuag at gyflawni Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg drwy hwyluso newid trawsnewidiol ar draws y sector. Bydd arweinyddiaeth newydd y Comisiwn yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu Cymraeg yn y gweithle.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Nid oes penderfyniad wedi ei wneud ar union leoliad y Comisiwn newydd. Mae'r De-ddwyrain wedi cael ei nodi am y tro at ddibenion cyfrifo costau sylfaenol ac oherwydd lleoliad y staff sy'n cael eu cyflogi yn y maes gwaith hwn ar hyn o bryd. Rhagwelir trefniadau gwaith hybrid a disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus dreulio peth amser yn y Comisiwn fel y bo'n briodol.

Ymrwymiad amser:	Ymrwymiad amser o hyd at 4 diwrnod y mis o fis Ionawr 2023, a allai gynyddu o fis Tachwedd 2023.
Hyd y penodiad:	Mae eich penodiad am gyfnod o hyd at 5 mlynedd oni bai ei fod yn cael ei derfynu cyn y dyddiad hwnnw. Gallwch derfynu'r penodiad ar unrhyw adeg cyn i'r cyfnod hwn ddod i ben drwy roi tri mis o rybudd yn ysgrifenedig. Yn yr un modd, gall y Gweinidog derfynu'r penodiad ar unrhyw adeg drwy roi tri mis o rybudd yn ysgrifenedig.
Tâl:	Bydd swydd y Cadeirydd yn derbyn £394 y diwrnod. Bydd cynllun i ad-dalu treuliau cynhaliaeth, a threuliau eraill a ysgwyddir fel rhan o'r gwaith. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion. Cewch hawlio treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill a ysgwyddir wrth wneud eich gwaith yn unol â'r cynllun hwn. Mae'n bosibl hefyd y byddwch yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau gofal plant/gofal henoed/gofal cynorthwyol wrth wneud gwaith ar ran y corff. Nid yw'r swydd hon yn bensiynadwy.

Pwy sy'n gymwys

Gall person wneud cais am rôl Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn os yw'n perthyn i'r cyrff llywodraethu canlynol. Fodd bynnag os bydd yn llwyddiannus, rhaid iddo ildio'r rôl honno ar unwaith neu caiff ei anghymwyso.

Bydd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru yn cynnwys rhestr (nad yw'n hollgynhwysfawr) o bobl sydd wedi'u hanghymwyso rhag bod yn gadeirydd neu'n aelod cyffredin, a allai gynnwys y canlynol:

(a) aelod o'r Senedd
(b) aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi
(c) aelod o gorff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru
(d) aelod o gorff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru.

Bydd person sy'n cael ei anghymwyso yn rhoi'r gorau i'w swydd fel cadeirydd neu fel aelod cyffredin.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod aelodaeth o Fwrdd y Comisiwn yn golygu na fyddwch yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Gwrthdaro buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n llwyddo yn y sifft i gyrraedd cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys chwiliadau o'r cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd, ond ni fyddant o reidrwydd yn gyfyngedig i'r rheini'n unig. Efallai y gofynnir cwestiynau i chi mewn cyfweliad, felly, mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus
Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn swydd Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru. Dyma gyfle cyffrous i helpu a chynghori ar y gwaith pontio a'r gwaith parhaus sydd ei angen i sefydlu a datblygu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru. Bydd gan Gadeirydd y Comisiwn rôl flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu corff hyd braich newydd i Lywodraeth Cymru, a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg, Hyfforddiant ac Ymchwil Ôl-orfodol.

Mae rôl y Cadeirydd yn hanfodol ar Fwrdd y Comisiwn a fydd yn helpu i lunio'r corff newydd, gan oruchwylio a rhoi cyfeiriad strategol i sicrhau ei fod wedi'i sefydlu'n llawn fel corff hyd braich newydd erbyn Ebrill 2024 fan bellaf (yn amodol ar ddeddfwriaeth).

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: Penodiadau Cyhoeddus Cymru.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Cadeirydd – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud Cais' ar ochr chwith gwaelod y dudalen. Y tro cyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y

mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen ymgeisio ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen, gan ddefnyddio ffont 12 Arial. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os ewch dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirda
Nodwch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y byddwn yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	30ain Medi 2022
Creu rhestr fer:	3ydd-14eg Hydref 2022
Cyfweliadau:	8fed – 17eg Tachwedd 2022

Datganiad Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am swyddi cyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd ag anawsterau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd).

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi roi tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech inni warantu cyfweliad, cysylltwch ag Amanda Woodrow drwy e-bost: amanda.woodrow001@llyw.cymru neu drwy ffonio 03000 251826 i roi gwybod iddi.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch ag Amanda Woodrow ar y manylion uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Enwau Cyswllt:
Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r broses ddethol neu os oes angen rhagor o gymorth arnoch wrth wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

E-bost: PublicAppointments@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cadeirydd Bwrdd y Comisiwn, cysylltwch â Zenny Saunders Ffôn: 03000 255 535, e-bost: Zenny.Saunders@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Y Broses Ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth, Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg.

Mae'n bosibl y bydd eich cais yn cael ei roi ar y rhestr hir, yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau a geir, cyn ei drosglwyddo i banel y rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol na fydd eich cais efallai yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Hydref 2022 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Tachwedd 2022. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau yn electronig.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig i gael cyfweliad y mae o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol sylfaenol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweliad, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu pryd bydd y panel dethol ar gael.

Cewch e-bost oddi wrth ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, efallai bydd gofyn i chi fynd i wrandawiad yn un o Bwyllgorau Senedd Cymru. Mae craffu cyn penodi, gorchwyl a gyflawnir gan bwyllgorau dethol, yn rhan bwysig o'r broses ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus pwysicaf a wneir gan Weinidogion. Y bwriad yw cynnig lefel ychwanegol o graffu i'r broses gyffredinol. Efallai y bydd hyn yn golygu bod y pwyllgor dethol perthnasol yn gofyn am wybodaeth gan yr Adran ac ynghylch yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog, ac yn ailedrych ar yr wybodaeth honno.

Gall y pwyllgor dethol hefyd ddewis cynnal gwrandawiad cyn penodi. Cynhelir gwrandawiadau cyn penodi yn gyhoeddus a bydd y pwyllgor dethol yn cymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog. Mae'r gwrandawiadau

cyhoeddus hyn yn cael eu cynnal cyn i benodiad gael ei gadarnhau, ond ar ôl i'r broses ddethol ddigwydd. Pan fo penodiad cyhoeddus yn destun craffu cyn penodi, mater i'r pwyllgor dethol perthnasol yw penderfynu a ddylid dilyn proses graffu o'r fath, gan gynnwys a ddylid cynnal gwrandawiad cyn penodi.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Bydd ein llythyr, felly, yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: The Commissioner for Public Appointments
G/08, 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ.